Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Mornant
# Heol Picton
# Picton
# Penyffordd
# Treffynnon
# Sir Y Fflint
# CH8 9JQ

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Mornant wedi'i lleoli ger pentref Picton, yn agos i ffordd yr arfordir sy'n cysylltu Prestatyn a Threffynnon. Mae 53 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys pump o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Nid oes yr un disgybl o gartref lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae ychydig o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae gan 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl sydd â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae oddeutu chwarter y disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant yn 2014-2015 yw £4,201. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £5,111 a'r lleiafswm yw £2,838. Mae Ysgol Gymraeg Mornant yn y 6ed safle o'r 68 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ebrill 2012.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Medi 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- safonau llythrennedd a rhifedd drwy'r ysgol yn dda;
- disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn foesgar a chwrtais;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion â syniad clir o'u cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;
- profiadau dysgu symbylol yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion;
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig; ac
- ansawdd y gynhaliaeth a'r gofal i ddisgyblion yn gynhwysfawr ac effeithiol.

Er hynny:

- roedd cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y ddwy flynedd diwethaf yn isel;
- nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain; ac
- nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o wybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth strategol y pennaeth yn gadarn a phwrpasol ac wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth;
- dealltwriaeth gadarn y staff a llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella;
- ystod eang o bartneriaethau yn hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol;
- yr ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i lais y rhieni; a
- rheolaeth ariannol yr ysgol yn gadarn.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A2 Darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain

A3 Gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A4 Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd llawysgrifen disgyblion cyfnod allweddol 2

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn eu cymhwyso'n fedrus i sefyllfaoedd newydd. Mae disgyblion o bob oedran yn galw i gof ddysgu blaenorol yn chwim ac yn wynebu sialensiau newydd yn hyderus. Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt aeddfedu, yn arbennig wrth iddynt fynd i'r afael â thasgau ymchwiliol ac ymarferol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd deilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf, gan mwyaf, yn y 25% isaf mewn llythrennedd a mathemateg. Roedd y gyfran a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn y 50% is neu'r 25% isaf mewn llythrennedd ac yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn mathemateg.

Mae perfformiad ar lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gan amlaf, wedi bod yn y 50% is neu'r 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae canlyniadau Saesneg wedi gosod yr ysgol gan mwyaf yn y 25% uchaf dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd perfformiad mewn Cymraeg ac mewn mathemateg yn y 25% uwch yn 2014, ond yn y 25% isaf mewn gwyddoniaeth. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae perfformiad yn y Gymraeg ac mewn mathemateg wedi bod, gan mwyaf, yn y 50% is ac wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn gwyddoniaeth.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn meddu ar y medrau mewn llythrennedd a rhifedd y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn siarad yn glir ac yn hyderus gan ddangos ymwybyddiaeth briodol o anghenion y gwrandäwr. Erbyn pen uchaf y Cyfnod, gall unigolion egluro prosesau, er enghraifft sut i blethu edafedd, mewn manylder, gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae bron pob un yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac maent yn trafod cynnwys stori yn hyderus a deallus. Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfleu ystyr, mae geiriau cyfarwydd wedi'u sillafu'n gywir ac mae'r llawysgrifen yn ddealladwy.

Wrth esbonio gwybodaeth a syniadau, mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn eglur ac yn treiglo'n gywir. Yn ystod gwaith grŵp, maent yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau disgyblion eraill ac yn cyfrannu'n adeiladol i'r trafodaethau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd ddeallus mae disgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn rhannu canlyniadau ymchwiliad gwyddonol gyda'u cymheiriaid yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ddarllenwyr hyfedr sy'n defnyddio nifer o strategaethau, megis cip ddarllen, i ddod o hyd i fanylion penodol mewn testun.  Maent yn mwynhau pori mewn llyfrau wrth chwilio am wybodaeth ac yn defnyddio testunau Saesneg yn fedrus ar gyfer cefnogi gwaith yn y Gymraeg. Erbyn pen uchaf y cyfnod allweddol, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu at nifer o ddibenion, er enghraifft i gyfleu gwybodaeth neu esbonio proses, ac yn defnyddio geirfa sy'n briodol i'r testun dan sylw.  Er bod enghreifftiau o lawysgrifen ddestlus, nid yw'r safon yn gyson ar draws y cyfnod allweddol.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus fel rhan annatod o weithgareddau'r ystafell ddosbarth.  Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn cyfrif, trefnu, yn adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych a thu hwnt.  Wrth ymwneud â thasgau ymarferol, er enghraifft creu toes gliter, maent yn defnyddio mesurau safonol cyffredin i fesur hyd a màs gyda manwl gywirdeb, ac maent yn defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol.  Ar ôl casglu gwybodaeth, er enghraifft sut mae disgyblion yn teithio i'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cofnodi eu canlyniadau mewn tablau a graffiau bloc syml.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn trosglwyddo eu medrau mathemategol i amrywiaeth eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd pob dydd.  Erbyn pen uchaf y cyfnod, maent yn ysgrifennu ac yn trin rhifau hyd at chwe digid yn hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen wrth luosi a rhannu rhifau a degolion.  Wrth iddynt ymchwilio i sut i gadw ciwbiau dŵr heb ddadmer, mae bron pob disgybl yn defnyddio amrywiaeth o offer ac unedau mesur yn bwrpasol gan gofnodi eu canlyniadau yn fanwl mewn tablau ac amrywiaeth o graffiau.

**Lles:  Da**

Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iachus ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.  Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd o unrhyw ymyrraeth annerbyniol gan ddisgyblion eraill.

Yn ddiwahân, dywed disgyblion eu bod yn mwynhau dod i'r ysgol.  Mewn gwersi a'r tu allan, mae bron pob un yn llawn cymhelliant, maent yn foesgar a chwrtais gyda phawb o'u cwmpas, gan gynnwys ymwelwyr, ac yn ymddwyn yn gyfrifol.  Wrth gydweithio ag eraill ar dasgau, neu wrth rannu syniadau mewn sefyllfa grŵp, mae bron pob disgybl yn ystyriol iawn o deimladau'r disgyblion eraill ac yn eu trin â pharch.  Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau ar dasg dros gyfnod estynedig ac yn arddangos balchder yn eu gwaith.

Wrth iddynt aeddfedu, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion syniad clir o'u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.  Erbyn cyfnod allweddol 2, maent ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u targedau personol ac maent yn gwybod pan fyddant wedi cyflawni'r targedau hyn.

Trwy'r cyngor ysgol, sydd hefyd yn gweithredu fel pwyllgor eco, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.  Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r cynllun datblygu ysgol ac maent hefyd wedi llunio cod

ymddygiad ar gyfer amser egwyl. Mae'r cyngor yn gweithredu mewn modd cyfansoddiadol ac yn cynnal ymgyrchoedd codi arian yn rheolaidd, er enghraifft, er mwyn gwella amgylchedd yr ysgol neu i gefnogi elusennau lleol. Er bod y gweithgareddau hyn yn annog disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldebau, ychydig o gyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut.

Roedd cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn 2013. Fodd bynnag, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae data presenoldeb heb ei ddilysu 2013 – 14 yn dangos gwelliant arwyddocaol ar gyfradd bresenoldeb 2013.

Mae'r disgyblion yn weithgar iawn ym mywyd y gymuned ehangach ac yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at achosion da a digwyddiadau lleol, er enghraifft Plant mewn Angen ac ymgyrchoedd codi arian lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylol sydd yn bodloni diddordeb ac anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Trwy gydgynllunio gofalus, mae athrawon yn sicrhau bod profiadau dysgu yn ymdrin yn llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod gan ddisgyblion rôl weithredol yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn y gwaith o ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau gwaith. Mae'r amrediad eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd a ddarperir yn y tri dosbarth yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol.

Mae'r gweithgareddau dysgu amrywiol tu allan i'r dosbarth, er enghraifft yr Urdd a'r clwb garddio, yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'r gweithgareddau hyn yn ehangu cyfleoedd dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella eu hyfedredd yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gryfder. Trwy astudio arwyr, artistiaid a llenorion Cymreig, ynghyd â chymeriadau hanesyddol fel Owain Glyndŵr, caiff disgyblion gyfleoedd ysgogol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Mae darpariaeth eang ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r maes yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol trwy waith o fewn y cwricwlwm a thrwy weithgarwch y cyngor ysgol. Trwy weithgareddau fel yr 'wythnos fasnach deg' ac ymgyrchoedd codi arian at achosion da, mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r berthynas waith glos rhwng oedolion a disgyblion yn arwain at amgylchedd dysgu ysgogol. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl. Trwy ymyrryd ar adegau priodol, maent yn herio syniadau disgyblion ac yn rhoi cynhaliaeth i unigolion neu grwpiau sydd angen cymorth. Mae athrawon yn annog pob disgybl i ymdrechu'n galed ac i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r ystod eang o ddulliau addysgu, er enghraiff gwaith unigol neu barau, gweithgareddau grŵp neu drefniant dosbarth cyfan, yn llwyddo'n dda i sicrhau ymglymiad bron pob unigolyn yn eu dysgu.

Er bod pwyslais cryf mewn gwersi ar hyrwyddo cydweithio, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Ar adegau, mae'r gorddefnydd o ganllawiau a thaflenni gwaith yn lleihau'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u blaengaredd ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu.

Mae strategaethau diweddar asesu ar gyfer dysgu eisoes wedi arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu. Mae'r arfer o bennu targedau unigol ar gyfer disgyblion o bob oedran yn arwain at gynnydd mewn dysgu a chymhelliant. Er hynny, nid yw gallu disgyblion i hunanasesu ac asesu gwaith eu cyfoedion wedi'i ddatblygu'n llawn. Mae adborth ysgrifenedig a llafar athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ynghylch safon eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i'w wella. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth yn deillio o asesiadau dydd-i-ddydd i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r trefniadau manwl a sefydlwyd ar gyfer cofnodi deilliannau asesiadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol yn galluogi athrawon i olrhain cynnydd pob unigolyn ac i ymyrryd yn bwrpasol yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiadau blynyddol a ddarperir i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd a lles disgyblion. Mae'r polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n eu lle yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ac yn cael eu gweithredu'n gydwybodol gan bob aelod staff. O ganlyniad, llwyddir i greu amgylchedd diogel lle mae oedolion a disgyblion yn parchu ei gilydd ac eraill yn dda iawn. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gynhaliaeth a'r gofal cynhwysfawr sydd ar gael i ddisgyblion yn cael eu hatgyfnerthu'n sylweddol gan gysylltiadau cynhyrchiol gydag amrediad o asiantaethau allanol, sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu. Mae'r rhain yn cynyddu dealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u gofal a'u diogelwch personol yn effeithiol iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da ac i gael mynediad i'r cwricwlwm llawn. Trwy ddefnyddio amrediad da o ddulliau asesu, mae'r ysgol yn llwyddo i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac i drefnu cynhaliaeth a rhaglenni ymyrraeth penodol ar eu cyfer. Mae hyn yn arwain at gynnydd addas mewn safonau a dysgu'r disgyblion. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd priodol ac, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn manteisio ar gydweithrediad asiantaethau allanol, ynghyd â gwasanethau cynhaliol yr awdurdod lleol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, llawn gofal a chynhwysol lle mae pob unigolyn yn bwysig ac yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a'r holl weithgareddau eraill. Mae'n llwyddo i greu ethos teuluol sy'n annog disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyfoedion ac i fod yn oddefgar tuag at ei gilydd. Mae staff yn herio unrhyw stereoteipio mewn agweddau ac yn sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl yn dioddef triniaeth lai ffafriol oherwydd eu hanawsterau.

Mae digon o adnoddau sydd o ansawdd da i gefnogi'r ystod lawn o ddisgyblion.

Mae'r adeilad a'r tiroedd sydd o'i gwmpas o ansawdd da ac yn darparu amgylchedd dysgu a chwarae diddorol i ddisgyblion o bob oedran. Mae disgyblion a staff yn gwneud defnydd llawn o'r holl ofod sydd yn yr adeilad ar gyfer ehangu profiadau dysgu disgyblion. Mae'r arddangosfeydd diddorol sydd ar furiau'r ystafelloedd yn dathlu llwyddiannau disgyblion ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd ddysgu diddorol a chwaethus.

Mae'r ardal ddysgu y tu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn adnodd buddiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol ac yn ategu'r gwaith yn yr ystafell ddosbarth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol y pennaeth wedi ysgogi nifer o ddatblygiadau arwyddocaol yn yr ysgol, yn arbennig y rheini mewn deilliannau, addysgu ac asesu. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae'n cyfleu'r rhain yn llwyddiannus i'r staff a'r llywodraethwyr. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol a chaiff holl aelodau'r staff eu cynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, cânt gyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd ac i fonitro gweithrediad ac effaith cynlluniau datblygu'r ysgol.

Mae'r trefniadau monitro manwl, sy'n cynnwys pob aelod staff, yn sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol ac yn gofalu bod blaenoriaethau'r ysgol yn cael eu gweithredu.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol a rhoi strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o sut mae’r ysgol yn perfformio o’i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae llawer o aelodau’r corff llywodraethol yn monitro ymddygiad y disgyblion a’u hagwedd tuag at ddysgu yn effeithiol. Maent yn barod i herio’r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol. Mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu wedi ei sefydlu’n gadarn ac effeithiol yng ngweithdrefnau’r ysgol ac yn sicrhau bod gan athrawon a llywodraethwyr rôl weithredol yn y broses. Mae deilliannau hunanarfarnu wedi eu seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol megis arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, adroddiadau monitro pynciau ac ar farn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae’r ysgol, yn ogystal, yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata perfformiad er mwyn edrych yn fanylach ar gyraeddiadau cymharol grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft, merched a bechgyn. O ganlyniad, mae gan y pennaeth a‘r staff ddealltwriaeth fanwl o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella.

Er yn rhy ddisgrifiadol mewn rhai adrannau, mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r agweddau sydd angen eu gwella. Mae’r rhain wedi’u hymgorffori’n gadarn ym mlaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau.

Trwy drafodaethau staff a monitro rheolaidd, caiff effaith y cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth ei harfarnu’n rheolaidd gan y pennaeth, staff a llywodraethwyr. Mae arfarniad trylwyr y cynllun gwella blaenorol yn llywio’r cynllun gwella presennol yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn gallu dangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth. Er enghraifft, mae ansawdd yr addysgu a safonau ysgrifennu Cymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi meithrin ystod eang o bartneriaethau sy’n hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae cysylltiadau da â’r cylch meithrin sydd wedi ei leoli ar yr un safle, gyda staff yn rhannu adnoddau ac yn cydweithio’n agos. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn y lleoliad yn trosglwyddo’n hyderus i ddosbarth meithrin yr ysgol.

Mae’r trefniadau trosglwyddo disgyblion i’r ysgolion uwchradd yn briodol ac yn paratoi’r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cyfarfodydd clwstwr ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn cyfrannu’n llwyddiannus at sicrhau cysondeb yn lefelau gwaith disgyblion.

Mae’r ysgol a’r rhieni yn cydweithio’n llwyddiannus, gyda’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw faterion neu bryderon a godir ganddynt. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’i gwefan ac o adnoddau technolegol eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda rhieni.

Mae cydweithio cynhyrchiol gydag ysgolion cynradd eraill lleol. Mae’r trefniadau ar gyfer rhannu arfer dda a chynnal hyfforddiant ar y cyd yn cyfrannu’n gryf at wella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Enghraifft arbennig o hyn yw’r modd y bu’r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion lleol er mwyn gwella medrau ysgrifennu disgyblion a hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon.

Mae’r bartneriaeth weithredol sydd rhwng yr ysgol ag asiantaethau arbenigol yn sicrhau ymateb priodol i gefnogi disgyblion bregus.

Mae partneriaeth gref gyda’r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â’r nifer ymwelwyr a ddaw i’r ysgol, yn cyfoethogi’r profiadau dysgu yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Mae lefelau staffio’n briodol i ymateb i ofynion nifer y disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio staff cynorthwyol yn fwriadus i roi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Caiff arbenigeddau staff eu defnyddio’n bwrpasol i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau’r disgyblion.

Mae’r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy’n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau’r ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ymestyn eu harbenigedd ac i gydweithio gydag ysgolion eraill ar flaengareddau megis codi safonau ysgrifennu a manteisio ar wasanaeth artistiaid preswyl.

Mae’r trefniadau ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu’r athrawon yn briodol ac yn cyfrannu’n dda tuag at godi safonau trwy’r ysgol, er enghraifft mewn celf.

Mae’r rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion eraill wedi arwain at welliannau yn safonau darllen disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â’r cynllun datblygu. Er enghraifft, mae’r gyllideb gyfredol yn clustnodi symiau penodol o arian ar gyfer cynyddu adnoddau yn y Cyfnod Sylfaen a chodi safonau llythrennedd a rhifedd drwy’r ysgol. Mae’r gyllideb yn cael ei monitro’n ofalus gan y pennaeth, y pwyllgor cyllid a’r awdurdod lleol. Mae grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio’n dda.

O ystyried perfformiad yr ysgol a chyflawniad disgyblion, mae’r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6642021 - Ysgol Gymraeg Mornant**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 55 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.0 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 12 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 44.4 | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 12 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 44.4 | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 25.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 12 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 58.3 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 8.3 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | * |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 12 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 33.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

# Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Mornant
Hydref 2014

**6642021 - Ysgol Gymraeg Mornant**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 55 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.0 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 6 | 9 | 8 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 88.9 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 87.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 33.3 | 62.5 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 87.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 11.1 | 25.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 22.2 | 37.5 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 87.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 22.2 | 50.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 44 | 42<br>95%<br>92% | 2<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 44 | 43<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 44 | 44<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 44 | 42<br>95%<br>96% | 2<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 44 | 44<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 44 | 41<br>93%<br>98% | 3<br>7%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 44 | 43<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 44 | 44<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 44 | 30<br>68%<br>77% | 14<br>32%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 44 | 41<br>93%<br>84% | 3<br>7%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 10 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 15% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 6 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 8 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 9 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 69% | 23% | 8% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 69% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 7 | 3 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 54% | 23% | 8% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Roberts | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Doli Edwards | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.